



# Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR) Adroddiad Safle ar gyfer Wylfa

Adroddiad ar gyfer cyfnod 1 Ionawr 2020 – 30 Mehefin 2020

## Rhagair

Cyhoeddir yr adroddiad hwn fel rhan o ymrwymiad ONR i sicrhau bod gwybodaeth am weithgareddau arolygu a rheoleiddio sy'n ymwneud â'r safle uchod ar gael i'r cyhoedd. Dosberthir adroddiadau i aelodau Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa (SSG) ac maent hefyd ar gael ar wefan ONR (<http://www.onr.org.uk/lrc/>).

Mae arolygwyr safle o ONR fel arfer yn mynychu cyfarfodydd SSG Wylfa lle cyflwynir yr adroddiadau hyn a byddant yn ymateb i unrhyw gwestiynau a godir yno. Dylai unrhyw berson sy'n dymuno holi am faterion a gwmpesir gan yr adroddiad hwn gysylltu ag ONR (<http://www.onr.org.uk/feedback.htm>).

## TABL CYNWYS

1	AROLYGIADAU .....	2
2	MATERION ARFEROL .....	3
3	MATERION NAD YDYNT YN YMWNEUD Â'R DREFN .....	4
4	GWEITHGARWCH RHEOLIADOL .....	4
5	NEWYDDION GAN ONR .....	4
6	CYSYLLTIADAU.....	6

## 1 AROLYGIADAU

### 1.1 Dyddiadau'r arolygiad

Mynychodd arolygwyr ONR safle Wylfa ar y dyddiadau canlynol:

- 14<sup>ydd</sup> i 16<sup>fed</sup> Ionawr 2020

## 2 MATERION ARFEROL

### 2.1 Arolygiadau

Cynhelir arolygiadau fel rhan o'r broses ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â:

- 'r amodau sydd ynghlwm wrth ONR â'r drwydded safle niwclear a roddwyd o dan Ddeddf Gosodiadau Niwclear 1965 (NIA65) (fel y'i diwygiwyd);
- Deddf Ynni 2013
- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 (HSWA74); a
- rheoliadau a wnaed o dan HSWA74, er enghraifft Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 2017 (IRR17) a Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 (MHSWR99).

Mae'r arolygiadau'n golygu monitro gweithredoedd trwyddedai ar y safle mewn perthynas â digwyddiadau, gweithrediadau, cynnal a chadw, prosiectau, addasiadau, newidiadau i achosion diogelwch ac unrhyw faterion eraill a allai effeithio ar ddiogelwch. Mae'n ofynnol i'r trwyddedai wneud a gweithredu trefniadau digonol o dan yr amodau sydd ynghlwm wrth y drwydded er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol. Mae arolygiadau'n ceisio barnu digonolrwydd y trefniadau hyn a'u gweithredu.

Yn ystod y cyfnod hwn, cynhaliodd ONR yr arolygiadau canlynol yn Wylfa:

- LC 11 Trefniadau Argyfwng
- LC 22 Addasu neu arbrofi ar y gwaith presennol
- LC 23 Rheolau gweithredu

Roedd ONR yn canolbwyntio yn ystod yr arolygiadau hyn ar weithredu Wylfa o achos diogelwch ail-waelodlin ôl waredu tanwydd a dileu unig reol weithredu Wylfa; a gweithgareddau sy'n cael eu cynnal yn barod i ddileu sifftiau gweithredol 24/7 fel rhan o'r broses o trawsnewid trefniadau argyfwng wrth gefn Wylfa (gan gynnwys addasiadau ffisegol). Roedd ONR o'r farn bod Wylfa i bob pwrpas yn gweithredu trefniadau ar gyfer cydymffurfio ag LC 11, 22 a 23 a'i bod yn gwneud cynnydd da tuag at fod yn barod i ddileu sifftiau gweithredol 24/7.

### 2.2 Gwaith arall

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, parhaodd ONR i ymgysylltu ag uwch dîm arwain Wylfa Magnox Limited i drafod "trefniadau wrth gefn" arfaethedig Wylfa ar ôl y bwriad i ddileu sifftiau gweithredol 24/7 ar safle Wylfa. "Trefniadau wrth gefn" yw'r enw a roddir i drefniadau argyfwng diwygiedig y safle sy'n adlewyrchu'r perygl niwclear is gan fod tanwydd wedi'i symud o'r safle erbyn hyn. Ar 18<sup>fed</sup> Mawrth 2020, rhoddodd ONR ei gymeradwyaeth i ddiwygiad Wylfa i'w drefniadau damweiniau ac achosion brys; caniatáu dileu sifftiau gweithredol 24/7 i bob diben.

Ym mis Hydref 2019, ysgrifennodd Wylfa at ONR i gadarnhau bod ei garreg filltir di-danwydd a dilysu bod yn ddi-danwydd wedi'i gwblhau. Mae hyn yn ymwneud â Wylfa yn tynnu'r holl danwydd o'r safle (adweithyddion heb danwydd a'r llwybr tanwydd wedi'i ddilysu nad oes unrhyw weddillion tanwydd ar gael yno).

Mewn ymateb i'r pandemig Covid-19, aeth Wylfa i mewn i saib rheoledig (cyflwr diogel digyffro) o'i weithrediadau ar 20<sup>fed</sup> mis Mawrth 2020. Ers hynny, mae ymweliadau ONR â'r safle wedi'u hatal fel rhan o fesurau i leihau'r risg o ymledu heintiau. Fodd bynnag, mae arolygydd safle enwebedig ONR wedi cadw mewn cysylltiad wythnosol â'r safle dros y ffôn drwy gydol y cyfnod oedi i drafod materion rheoleiddio, gan gynnwys: gwydnwch trefniadau brys, gwydnwch y gweithlu, gwydnwch y gadwyn gyflenwi, adrodd am ddigwyddiadau a chynllunio dychwelyd i'r gwaith Wylfa (gan gynnwys gweithredu mesurau diogelu iechyd cysylltiedig â Covid-19).

### 3 MATERION NAD YDYNT YN YMWNEUD Â'R DREFN

Mae'n ofynnol i drwyddedigion fod â threfniadau i ymateb i faterion a digwyddiadau nad ydynt yn arferol. Mae arolygwyr ONR yn barnu digonolrwydd ymateb y trwyddedai, gan gynnwys y camau a gymerwyd i weithredu unrhyw welliannau angenrheidiol.

Mewn ymateb i'r pandemig Covid-19, rhoddwyd pob un o'r 12 safle niwclear trwyddedig Magnox Limited mewn cyflwr diogel digyffro gyda'r holl weithgareddau datgomisiynu a thrin gwastraff ymbelydrol wedi dod i ben. Roedd yr oedi hwn mewn gweithrediadau yn caniatáu i nifer y personél ar y safle gael eu lleihau i lefel y gellid monitro a goruchwylio peth gwaith, megis gwagio sympiau o bryd i'w gilydd a gwirio systemau awyru, ac y gellir cynnal diogelwch. Roedd y rhan fwyaf o'r personél yn ystod y cyfnod oedi hwn yn gweithio gartref. Mae'r safle wrthi'n gwneud gwaith i sicrhau y gall personél ddychwelyd i'r safle mewn modd diogel.

Cynhelir parodrwydd ar gyfer argyfwng drwy dîm cyflenwi dyletswydd ar bob safle yn unol â threfniadau argyfwng cymeradwy ONR. Mae'r trefniadau hyn yn cynnwys y ddarpariaeth i allw personél ychwanegol a'r gwasanaethau brys i mewn ar y safle i gynorthwyo staff Magnox Limited. Mae'r cynlluniau hyn wedi cael eu hymarfer a'u harsylwi'n rheolaidd gan arolygwyr ONR yn ystod ymarferion brys yn y gorffennol diweddar. Nid yw Magnox Limited wedi adrodd am unrhyw faterion a allai effeithio ar statws diogel y safle.

### 4 GWEITHGARWCH RHEOLIADOL

Gall ONR gyhoeddi dogfennau ffurfiol i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion rheoliadol. O dan Amodau Trwydded (LC) safle niwclear, mae ONR yn cyhoeddi dogfennau rheoliadol sydd naill ai'n caniatáu gweithgaredd neu'n ei gwneud yn ofynnol i ryw fath o gamau gael eu cymryd. Gelwir y rhain ar y cyd yn 'Offerynnau Trwydded' (LIs). Yn ogystal, gall arolygwyr gyhoeddi Hysbysiadau Gorfodi i sicrhau gwelliannau i ddiogelwch.

Cyhoeddwyd un LI, ac ni chyhoeddwyd unrhyw Hysbysiadau Gorfodi yn ystod y cyfnod:

**Tabl 1**

**Offerynnau Trwydded a Hysbysiadau Gorfodi a gyhoeddwyd gan ONR yn ystod y cyfnod hwn**

Dyddiad	Math	Rhif Cyf	Disgrifiad
18/03/2020	Offeryn Trwydded	574	Cyhoeddwyd cadarnhad dan amod trwydded 11(3) o drefniadau damweiniau ac achosion brys diwygiedig Wylfa (sy'n caniatáu i Wylfa ddileu sifftiau gweithredol 24/7). Daeth y cadarnhad i rym ar 20/03/2020 am 10am.

Ceir adroddiadau sy'n manylu ar y penderfyniadau rheoleiddio uchod ar wefan ONR yn <http://www.onr.org.uk/pars/>.

## 5 NEWYDDION GAN ONR

### 5.1 Covid-19

Mae ONR yn parhau i ddiogelu cymdeithas drwy sicrhau gweithrediadau niwclear diogel yn ystod pandemig Covid-19 (coronafeirws). Mae ein staff yn parhau i weithio gartref, yn unol â chyngor y llywodraeth, gyda nifer cyfyngedig o'n harolygwyr, fel gweithwyr allweddol, yn teithio i'r safle yn ôl yr angen i gynnal arolygiadau rheoleiddio brys a hanfodol. Mae safle diweddaraf ONR i'w weld ar ein gwefan.

### Camau Gorfodi

Cyflwynodd ONR Hysbysiad Gwella ar EDF Energy Nuclear Generation Ltd (EDF Energy) am dorri Rheoliadau Diogelwch Systemau Pwysau (2000) yng Ngorsaf Bŵer Heysham 1. Cyflwynwyd yr hysbysiad ar ôl i ddiffygion gael eu darganfod wrth archwilio ac arolygu llestr pwysedd Adweithydd 1 yn y gwaith yn Swydd Gaerhifryn. Rhaid i Ynni EDF gydymffurfio â'r Hysbysiad Gwella a chwblhau'r un ar ddeg o archwiliadau hwyr erbyn 18 Rhagfyr 2020.

Mae ONR wedi rhoi estyniad i Hysbysiad Gorfodi a gyflwynwyd i Urenco UK Ltd, gan gydnabod y cynnydd da a wnaed hyd yma. Cyflwynwyd yr hysbysiad ddiwedd mis Rhagfyr 2019, yn dilyn arolygiad diogelwch tân yn Capenhurst Works yn Sir Gaer, a ddatgelodd ddiffygion yn y systemau larwm tân a chanfod yn un o gyfleusterau'r safle. Rhaid i Urenco UK Ltd gydymffurfio â gofynion yr hysbysiad estynedig erbyn 30 Medi 2020

### Diweddariadau Rheoliadol

Derbyniodd ONR gais am drwydded safle niwclear gan NNB Generation Company (SZC) Limited, i adeiladu a gweithredu dau adweithydd EPR™, yn ei ddatblygiad arfaethedig yn Sizewell, Suffolk. Byddwn yn awr yn asesu'r cais, wedi'i lywio'n rhannol gan ein hasesiad blaenorol o'r EPR™ yn Hinkley Point C – gan gynnwys defnyddio'r gwersi perthnasol o'r asesiad hwnnw, tra'n canolbwyntio ar agweddau sy'n benodol berthnasol i Sizewell C.

Er ein bod yn fodlon bod y cais yn ddigon cyflawn i fynd ymlaen i'r cam asesu, mae llawer o waith i'w wneud o hyd – ac nid ydym yn disgwyl dod i benderfyniad, tan o leiaf diwedd 2021.

Am y newyddion diweddaraf a'r diweddariadau gan ONR ewch i'r wefan a cofrestrwch ar gyfer ein e-fwletin (<http://www.onr.org.uk/ebulletin/index.htm>).

## 6 CYSYLLTIADAU

Y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear  
Redgrave Court  
Merton Road  
Bootle  
Merseyside  
L20 7HS  
Gwefan: [www.onr.org.uk](http://www.onr.org.uk)  
E-bost: [contact@onr.gsi.gov.uk](mailto:contact@onr.gsi.gov.uk)

Cyhoeddir y ddogfen hon gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR). I gael rhagor o wybodaeth am ONR, neu i roi gwybod am anghysondebau neu gamgymeriadau yn y cyhoeddiad hwn ewch i <http://www.onr.org.uk/feedback.htm>.

© Swyddfa Rheoleiddio Niwclear, 2020

Os hoffech ailddefnyddio'r wybodaeth hon ewch i [www.onr.org.uk/copyright.htm](http://www.onr.org.uk/copyright.htm) am fanylion.  
Cyhoeddwyd 01/20

*Ar gyfer dogfennau cyhoeddedig, y copi electronig ar wefan ONR yw'r fersiwn mwyaf cyfredol sydd ar gael i'r cyhoedd ar hyn o hyd ac mae copïo neu argraffu yn peri bod y ddogfen hon heb reolaeth.*